



Telerau ac Amodau Aelodaeth QAA (Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon)

Mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA) - y corff annibynnol sydd â'r cyfrifoldeb am fonitro a chynghori ar safonau ac ansawdd yn addysg uwch y DU - yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i ymgorffori yng Nghymru a Lloegr gyda'r rhif cwmni 03344784, ac wedi'i gofrestru fel elusen yn Lloegr o dan rif elusen 1062746 ac yn yr Alban o dan rif elusen SC037786, gyda'i swyddfa gofrestredig yn Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB ('QAA').

Yn dilyn, mae'r telerau ac amodau (y 'Telerau') rhwng QAA a'r Aelod (y 'Partion') y mae QAA wedi cytuno i ddarparu'r Aelodaeth iddo. Mae'r Telerau hyn, y Cytundeb Aelodaeth a'r Telerau Defnyddio gyda'i gilydd yn sail i'r berthynas Aelodaeth. Esbonnir termau diffiniedig a ddefnyddir yn y Telerau hyn yma: www.qaa.ac.uk/docs/qaa/about-us/qaa-membership-definitions.pdf

1 Cyffredinol

1.1 Mae cyngor ac arweiniad a gyhoeddir gan QAA fel rhan o'r Gwasanaethau yn gyffredinol ac fe'u darperir er gwybodaeth yn unig. Gellir prynu gwasanaethau ymgynghori a chynghori ar wahân trwy adran Gwasanaethau Proffesiynol QAA.

1.2 Mae Nodau Masnach QAA yn eiddo i QAA ac mae eu defnydd, gan gynnwys eu hatgynhyrchu, yn amodol ar dderbyn caniatâd ysgrifenedig gan QAA, ac nid yw'n cael ei ganiatáu o dan y cytundeb hwn.

1.3 Bydd yr Aelod yn cymryd cyfrifoldeb am ddefnydd unrhyw Ddefnyddiwr o'r Gwasanaethau nad yw'n unol â'r Telerau Defnyddio neu'r Telerau hyn.

2 Rhwymedigaethau QAA

2.1 Mae QAA yn gwarantu bod ganddo, ac y bydd yn cynnal, yr holl drwyddedau, cydsyniadau a chaniatadau angenrheidiol sydd eu hangen i gyflawni ei rwymedigaethau mewn perthynas â'r Gwasanaethau.

2.2 Bydd QAA yn darparu'r Gwasanaethau gan ddefnyddio sgil a gofal rhesymol i safon y gellir ei disgwyl yn rhesymol gan gorff sydd ag arbenigedd a gwybodaeth QAA.

2.3 Bydd QAA yn gwneud ymdrechion rhesymol i sicrhau bod y Gwasanaethau'n hygyrch i'r Aelod a'i Ddefnyddwyr trwy gydol y Tymor Aelodaeth ond nid yw'n cynnig unrhyw warantau mewn perthynas â hygyrchedd y Gwasanaethau.

2.4 Mae QAA yn cadw'r hawl i ddiwygio'r Gwasanaethau ar unrhyw adeg heb rybudd i'r Aelod cyn belled nad yw diwygiad o'r fath yn newid sylwedd y Gwasanaethau yn sylfaenol.

3 Adnoddau Aelodaeth

Gall defnyddwyr gyrchu, defnyddio, argraffu a lawrlwytho'r Adnoddau Aelodaeth yn unol â'r Telerau Defnyddio. Mae rhai Adnoddau Aelodaeth wedi'u bwriadu ar gyfer Aelodau yn unig ac fe'u dynodir felly.

4 Ffi Aelodaeth

4.1 Bydd y Ffi Aelodaeth sy'n berthnasol ar gyfer y Tymor Aelodaeth cyntaf ac unrhyw dymor dilynol yn cael ei gadarnhau'n flynyddol mewn anfoneb, a fydd yn gynnig gan QAA i gyflenwi'r Gwasanaethau yn unol â'r Telerau hyn.

4.2 Rhaid i'r Aelod dalu'r anfoneb cyn pen 30 diwrnod o'i gyhoeddi. Bydd talu'r anfoneb yn golygu derbyn y cynnig y cyfeirir ato yng nghymal 4.1.

4.3 Rhoddir mynediad i'r Adnoddau Aelodaeth ar gyfer Defnyddwyr yr Aelod o'r adeg y derbynir y cynnig. Bydd mynediad yn cael ei atal ar gyfer pob Defnyddiwr os na thelir yr anfoneb y cyfeirir ati yng nghymal 4.2 erbyn y dyddiad y mae'n ddyledus.

4.4 Bydd Telerau Aelodaeth dilynol yn cychwyn heb fod yn gynharach na 1 Awst (y 'Dyddiad Cychwyn Aelodaeth') ni waeth pryd y bydd QAA yn derbyn taliad am y Tymor Aelodaeth, a bydd yn dod i ben ar 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

4.5 Cyfrifir yr holl Ffioedd Aelodaeth heb Dreth Ar Werth y DU ('TAW') ar y sail bod y Gwasanaethau y tu allan i gwmpas TAW. Mae QAA yn cadw'r hawl i godi TAW os bernir ei bod yn gymwys.

5 Digwyddiadau i Aelodau

5.1 Bydd QAA yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod Digwyddiadau i Aelodau yn cael eu cynnal fel y cânt eu hysbysebu ond yn cadw'r hawl yn ôl ei ddisgresiwn ei hun i addasu neu ganslo dyddiad, amseriad, rhaglen neu unrhyw agwedd arall ar ddigwyddiad a hysbysebwyd ar unrhyw adeg.

5.2 Bydd archebu lle a mynychu Digwyddiadau i Aelodau yn ddarostyngedig i delerau ac amodau digwyddiadau QAA, fel y'u cyhoeddir o bryd i'w gilydd.

6 Cyfrinachedd

6.1 Rhaid i bob Parti gadw (a sicrhau y bydd ei weithwyr, asiantau a Defnyddwyr, fel y bo'n berthnasol, yn cadw) unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol y gallant ei derbyn yn ystod y Tymor Aelodaeth yn gyfrinachol, ac eithrio gwybodaeth y gall fod hawl ganddynt neu rwymedigaeth arnynt i'w datgelu dan orfodaeth cyfraith neu lle bo hynny'n ofynnol gan asiantaethau rheoleiddio neu i'w ymgynghorwyr proffesiynol lle bo hynny'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r Gwasanaethau.

6.2 Bydd rhwymedigaethau pob un o'r Partïon sydd wedi'u cynnwys yn is-gymal 6.1 yn parhau heb derfyn amser ond byddant yn peidio â bod yn gymwys i unrhyw wybodaeth sy'n dod yn gyhoeddus heblaw am drwy dorri unrhyw rwymedigaethau a gynhwysir yn y Telerau hyn gan unrhyw Barti o'r fath.

7 Hawliau Eiddo Deallusol

7.1 Bydd yr holl Hawliau Eiddo Deallusol sy'n deillio o'r Gwasanaethau neu mewn cysylltiad â hwy, gan gynnwys yn yr holl Adnoddau Aelodaeth, yn eiddo i QAA, a fydd yn cadw'r Eiddo Deallusol hwnnw er budd ac ar ran yr Aelodau ar y cyd.

7.2 Mae QAA yn rhoi trwydded wedi ei thalu'n llawn sy'n fyd eang, heb freindal, nad yw'n gyfyngedig, y gellir ei diddymu, na ellir ei throsglwyddo na'i neilltuo, i'r Aelod i ddefnyddio Hawliau Eiddo Deallusol QAA at ddibenion derbyn a defnyddio'r Gwasanaethau yn unig ac yn amodol ar y telerau a nodir isod, ac heb fod at unrhyw bwrpas arall o gwbl (y 'Drwydded'):

7.2.1 caiff yr Aelod ddefnyddio'r Adnoddau Aelodaeth at ei ddibenion addysgol, ymchwil a busnes mewnol ei hun, a dibenion ei Ddefnyddwyr yn unig; a

7.2.2 o dan delerau'r Drwydded, ni chaiff yr Aelod wneud addasiadau o'r Adnoddau Aelodaeth nac iddynt (gan gynnwys cyfieithu, addasu, gwaith deilliadol neu addasiad arall sy'n deillio o'r Adnoddau Aelodaeth gwreiddiol) heb gydsyniad ysgrifenedig QAA ymlaen llaw oni bai bod yr Adnodd Aelodaeth dan sylw yn nodi fel arall yn benodol (hynny yw, y rhai sy'n ddarostyngedig i drwyddedau Creative Commons neu sydd wedi'u cynllunio'n benodol ar gyfer eu haddasu at ddefnydd lleol gan Aelodau).

7.3 Lle bo hynny'n berthnasol, rhaid i'r Aelod gadw'r holl hysbysiadau hawlfraint ar gyfer yr Adnoddau Aelodaeth yn gyfan ynghyd ag unrhyw hysbysiadau priodoli yn unol â chyfarwyddyd a roddir gan QAA o bryd i'w gilydd.

7.4 Bydd darpariaethau'r cymal hwn yn goroesi terfyniad neu ddiwedd y Contract, sut bynnag y digwydd hynny.

8 Diogelu data

8.1 Rhaid i bob Parti gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a osodir ar reolydd o dan Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU (unrhyw ddeddfwriaeth diogelu data sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data EU2016/679) a bydd unrhyw dorri ar Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU gan y naill Parti, os na chaiff ei unioni o fewn 30 diwrnod o rybudd ysgrifenedig gan y Parti arall, yn rhoi sail i'r Parti arall derfynu'r cytundeb hwn ar unwaith.

8.2 Bydd unrhyw wybodaeth bersonol (fel y'i diffinnir gan Ddeddfwriaeth Diogelu Data'r DU) a rennir rhwng y Partïon mewn perthynas â'r Contract yn cael ei phrosesu yn unol â thelerau hysbysiad preifatrwydd QAA, fel y'i diwedderir o bryd i'w gilydd:

<https://www.qaa.ac.uk/cy/preifatrwydd-a-chwcis>

9 Cyfyngiadau ar atebolrwydd

9.1 Ni fydd QAA yn atebol am:

(a) unrhyw golled, anaf, hawliad, atebolrwydd, neu ddifrod o unrhyw fath sy'n deillio o neu'n gysylltiedig mewn unrhyw fodd ag: (i) unrhyw wallau neu hepgoriadau yn y Gwasanaethau; (ii) unrhyw gynnwys trydydd parti; (iii) diffyg argaeledd y Gwasanaethau neu unrhyw ran ohonynt; (iv) defnydd yr Aelod o'r Gwasanaethau; neu (v) defnydd yr Aelod o unrhyw gyfarpar neu feddalwedd mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau; neu

(b) unrhyw iawndal arbennig, uniongyrchol, anuniongyrchol, anfwriadol, cosbol neu ganlyniadol o unrhyw fath o gwbl (gan gynnwys, heb gyfyngiad, ffioedd cyfreithwyr) sydd mewn unrhyw ffordd yn deillio o, neu'n ganlyniad i neu'n codi mewn cysylltiad â defnyddio neu anallu i ddefnyddio'r Gwasanaethau. .

9.2 Yn ddarostyngedig i'r eithriadau angenrheidiol sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith, bydd cyfanswm atebolrwydd QAA yn ei grynsyth - p'un ai mewn contract, camwedd, esgeulustod, torri dyletswydd statudol neu fel arall yn ôl y gyfraith - mewn perthynas ag unrhyw hawliad neu gyfres o hawliadau cysylltiedig o dan neu mewn cysylltiad â'r Contract, yn gyfyngedig i'r swm sy'n hafal i'r Ffi Aelodaeth a dalwyd yn briodol ac a oedd yn daladwy yn y flwyddyn flaenorol y cododd yr hawliad neu'r gyfres o hawliadau ynddi.

10 Amrywio

Gall QAA amrywio'r Telerau hyn ar unrhyw adeg yn amodol ar roi un mis o rybudd ysgrifenedig i'r Aelod am yr amrywiad hwnnw. Er mwyn osgoi amheuaeth, bydd hysbysiad o'r fath yn effeithiol os caiff ei anfon trwy e-bost.

11 Cyfraith Iywodraethol

Bydd y berthynas Aelodaeth ac unrhyw anghydfod neu hawliad (gan gynnwys unrhyw anghydfod neu hawliad digontract) sy'n deillio ohoni neu mewn cysylltiad â hi neu ei thestun neu ei ffurfio, yn cael ei llywodraethu gan a'i dehongli yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr.

Cyhoeddwyd - Gorffennaf 2020.

© Yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2020
Rhifau elusen cofrestredig 1062746 a SC037786
www.qaa.ac.uk